

Castell Caerdydd

Sesiwn Rufeinig Safonol yn y Ganolfan Addysg

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Stiward (Ystafell 2) yn y Ganolfan Addysg.

Disgrifiad

Bydd y sesiwn yn y Ganolfan Addysg yn edrych ar ddyfodiad y Rhufeiniaid yng Nghaerdydd, y rhesymau posibl dros ddewis y lleoliad ar gyfer y caer cyntaf o bedwar a adeiladwyd yma, y newidiadau yn siâp a lleoliadau'r caer a siâp y caer terfynol. Bydd disgyblion yn gweld replica o arfwisg ac arfau o'r cyfnod Rhufeinig, yn trafod eu defnydd, eu cryfderau a'u gwendidau ac yn cael cyfle i roi cynnig ar rai eitemau.

Cynhelir y sesiwn hon gan y Swyddog Addysg sydd wedi pasio prawf prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ yn rhan o bris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r disgyblion i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych. Cyfeirir at rai o reolwyr y cyfnod Rhufeinig yn addurn y Llyfrgell.

Hyd

Bydd y sesiwn yn para 60-75 munud. Ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaenol/Cyfnod Allweddol 1 a grwpiau AAA, gellir byrhau'r sesiynau i ddiwallu anghenion y grŵp. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall athrawon sydd â phlant iau ddewis taith fyrrach sy'n hepgor y grisiau troellog i ben un o'r tyrau.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfnod Rhufeinig ar y Daith Glywedol o'r Tiroedd ac yn y Llwybr Teulu.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Bydd y canlyniadau a ddysgwyd a'r hyn a gwmpesir yn ystod y sesiynau yn dibynnu ar oed, anghenion ac amrediad y disgyblion. Fodd bynnag, erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y rhesymau tebygol pan wnaeth y Rhufeiniaid ddewis y lleoliad ar gyfer eu caer a yng Nghaerdydd
- ◆ Dysgu sut rydym yn gwybod y wybodaeth am y caer Rhufeinig yng Nghaerdydd
- ◆ Dysgu am y gwahanol gaerau yng Nghastell Caerdydd
- ◆ Dysgu am y rhengoedd gwahanol o filwyr mewn byddin Rufeinig
- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o arfwisgoedd a wisgwyd a'r arfau a ddefnyddiwyd ar y pryd
- ◆ Dysgu am fywydau pob dydd rhai o'r milwyr hyn
- ◆ Siarad am a gweld rhai o'r eitemau a ddefnyddiwyd bob dydd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid
- ◆ Gwisgo helmed, codi tarian a thrin eitemau o'r arfwisg

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Bywyd pob dydd pobl sy'n byw yn ystod yr Oes Haearn, Celtiaid neu'r Rhufeiniaid (Hanes)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Yr Ymerodraeth Rufeinig a'i heffaith ar Brydain

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o

Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.